

Llyfryn Canllawiau: Derbyn Cais

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Ffôn:
0300 025 9809

Ffacs:
0300 025 9801



E-bost:
[AgriculturalLand
TribunaWales@l
lyw.cymru](mailto:AgriculturalLandTribunaWales@llyw.cymru)



Gwefan:
tta.llyw.cymru



Post:
Tribiwnlys Tir Amaethyddol
Cymru, Adeiladau'r
Llywodraeth, Spa Road
East, Llandrindod, Powys
LD1 5HA

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad	3
Adran 2	Beth yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru?	4
Adran 3	Derbyn cais: Cyffredinol	5
Adran 4	Gwrandawriad y Tribiwnlys	8
Adran 5	Penderfyniad y Tribiwnlys	11
Adran 6	Hwsmonaeth Wael	12
Adran 7	Llosgi	12
Adran 8	Offer Sefydlog	13
Adran 9	Gwelliannau Hirdymor	15
Adran 10	Gardd Fasnachol	15
Adran 11	Rhybudd i Ymadael	16
Adran 12	Olyniaeth yn sgil Marwolaeth	18
Adran 13	Olyniaeth yn sgil Ymddeoliad	22

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllawiau sy'n dilyn cyn cwblhau unrhyw ffurflen gais.

Bwriad y llyfryn hwn yn darparu canllawiau cyffredinol yn unig. Nid yw ar unrhyw gyfrif yn cymryd lle'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ceisiadau i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, nac unrhyw gyngor proffesiynol a roddir ar amgylchiadau personol.

Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n gwneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol neu sy'n gysylltiedig â thrafodion y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn ymgyswddo â'r ddeddfwriaeth berthnasol, neu'n gofyn am gyngor proffesiynol.

Cysylltwch â'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â gwneud cais neu os oes unrhyw beth yn aneglur am y broses. Fodd bynnag, ni allwn roi cyngor cyfreithiol na'ch helpu i wneud cais neu ymateb i un.

Beth yw Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Mae gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru swyddogaeth bwysig yn dyfarnu ar achosion o anghydfod a materion eraill rhwng landlordiaid a thenantiaid amaethyddol, sy'n deillio o gytundebau tenantiaeth sy'n cael eu dal o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Mae tenantiaethau newydd y cytunwyd arnynt ar neu ar ôl 1 Medi 1995 yn denantiaethau busnes fferm ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. Nid oes atebolrwydd gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru o dan Ddeddf 1995. Yn hytrach, bydd achosion o anghydfod cyffredinol yn cael eu datrys drwy gymrodeddu, ac yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Cymrodeddu 1950. Gall partion contractio allan o'r darpariaethau statudol a newid eu trefniadau eu hunain, ond ni allant contractio Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ddatrys achosion o anghydfod.

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru hefyd yn dyfarnu ar achosion o anghydfod sy'n gysylltiedig â draenio tir amaethyddol o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.

Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn gorff statudol annibynnol ac mae ganddo'r awdurdodaeth dros ardal ddaearyddol Cymru.

Aelodaeth y Tribiwnlys

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau Lleyg. Gwneir y penodiadau ar ôl hysbysebu swyddi gwag ac i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol gynnal cyfweiliadau cystadleuol.

Cadeirydd	Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am weinyddiaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.
Aelodau Lleyg	Mae gan Aelodau Lleyg ystod eang o wybodaeth a phrofiad perthnasol y gallant eu cyfrannu at bob Gwrandawriad. Maent yn eistedd ar y Paneli Draenio, Ffermwyr a Thirfeddianwyr.
Ysgrifennydd	Mae'r weinyddiaeth o ddydd i ddydd yn cael ei dirprwyo'n bennaf i'r Ysgrifennydd a fydd yn ymdrin â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Bydd yr Ysgrifennydd yn ymgynghori â'r Cadeirydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod cyfnodau rhagarweiniol y trafodion cyn y gwrandawriad ac yn trosglwyddo dyfarniadau'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r holl bartion. Mae'r Ysgrifennydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt i'r Cadeirydd, Aelodau a phartion ac yn mynychu pob Gwrandawriad er mwyn sicrhau bod y trafodion yn cael eu cynnal yn ddidrafferth.

Derbyn Cais: Cyffredinol

Beth sy'n digwydd os byddaf yn derbyn copi o gais gan y Tribiwnlys?

Byddwch yn cael cyfle i ymateb i'r cais. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi ffurflen ymateb i chi ac yn eich cynghori o'r terfynau amser ar gyfer ymateb.

Beth sy'n digwydd i'r ymateb y byddaf yn ei anfon i'r Tribiwnlys?

Bydd y Tribiwnlys yn cydnabod ei fod wedi derbyn eich ymateb ac yn anfon copi o'ch ymateb at yr holl bartïon eraill o fewn 10 niwrnod gwaith.

Ar ôl i'r Tribiwnlys dderbyn ymateb a'i anfon at y partïon perthnasol, bydd camau'n cael eu cymryd i ddatrys y cais naill ai drwy gytundeb neu drwy gyflwyno'r mater gerbron Gwrandawriad.

A oes terfynau amser ar gyfer ymateb i'r Tribiwnlys?

Bydd y Tribiwnlys yn eich cynghori o unrhyw derfynau amser perthnasol.

Efallai y bydd y terfynau amser yn cael eu hymestyn, ond dim ond os yw Cadeirydd y Tribiwnlys o'r farn bod rhesymau da i wneud hynny. Mae Gorchymyn (Rheolau) Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol 2007 yn egluro canlyniadau methu ymateb i gais o fewn y cyfnod a ganiateir gan y Rheolau.

A all y Tribiwnlys ddarparu cyngor?

Mae'r Tribiwnlys yn Gorff Barnwrol annibynnol ac felly mae'n rhaid iddo fod yn ddiuedd wrth ymdrin ag achosion o anghydfod. Gall ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys ddarparu cyngor ar weithdrefnau'r Tribiwnlys; ni all y Tribiwnlys ddarparu cyngor cyfreithiol nac arweiniad ar sut i gyflwyno achos.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

A all fy nghynrychiolydd anfon a derbyn dogfennau ar fy rhan?

Gall eich cynrychiolydd anfon unrhyw wybodaeth ar eich rhan. Dylid cynnwys copi o'r awdurdod ysgrifenedig.

A all y Tribiwnlys argymhell unrhyw gynrychiolwyr i'm cynorthwyo?

Fel Corff Barnwrol, ni all y Tribiwnlys wneud argymhellion am gynrychiolwyr na darparu cyngor ar geisiadau.

Sut bydd dogfennau'n cael eu hanfon ata i?

Bydd yr holl ddogfennau gweithdrefnol yn cael eu hanfon drwy wasanaeth Recorded neu Special Delivery y Post Brenhinol.

A gedwir fy ymateb yn gyfrinachol?

Bydd gwybodaeth a ddarperir i'r Tribiwnlys mewn perthynas â'r cais ond yn cael ei datgelu i'r rhai sy'n rhan o'r achos.

Fodd bynnag, cynhelir Gwrandawiadau yn gyhoeddus. Pan fydd achos yn mynd i Wrandawiad ffurfiol, bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gan unrhyw barti yn dod yn wybodaeth gyhoeddus, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn ddymunol cadw unrhyw drafodion yn breifat.

Sut mae anfon fy ymateb i'r Tribiwnlys?

Mae'n rhaid i chi anfon unrhyw wybodaeth i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Gellir anfon gwybodaeth i'r Tribiwnlys drwy'r post, dros y ffacs neu e-bost.

Beth sy'n digwydd os bydda i'n penderfynu tynnu fy ymateb i gais yn ôl?

Mae'n rhaid i chi hysbysu'r Tribiwnlys yn ysgrifenedig.

Os na thynnir cais yn ôl, beth fydd yn digwydd wedi hynny?

Os yw'r ymgeisydd am barhau â'i gais i'r Tribiwnlys, bydd yn rhaid cytuno ar Wrandawiad. Cysylltir â chi os bydd angen cynnal Gwrandawiad.

Gwrandawiad y Tribiwnlys

A fydd Gwrandawiad?

Nid yw cais i Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn arwain o reidrwydd at Wrandawiad. Mae llawer o achosion yn cael eu datrys rhwng y partïon ac nid oes angen Gwrandawiad.

Pryd fyddwch chi'n dweud wrthyf am ddyddiad y Gwrandawiad?

Bydd y Tribiwnlys yn cynghori partïon o ddyddiad, amser a lleoliad y Gwrandawiad. Bydd y Tribiwnlys yn hysbysu partïon o leiaf 14 diwrnod cyn y Gwrandawiad.

Ble cynhelir y Gwrandawiad?

Trefnir i Wrandawiadau gael eu cynnal mewn lleoliadau addas yn agos i'r tir dan sylw.

Pryd y cynhelir y Gwrandawiad?

Cynhelir y Gwrandawiad ar ddyddiad sy'n gyfleus i bob parti a'r Tribiwnlys.

Faint o'r gloch mae Gwrandawiad yn dechrau a faint mae'n para?

Fel arfer, bydd Gwrandawiadau yn dechrau am 10:00am. Byddant yn para drwy'r dydd fel arfer, ond anaml y byddant yn para ar ôl 5.00pm. Bydd eich Tribiwnlys yn eich cynghori am faint o ddyddiau y mae'ch Gwrandawiad wedi'i restru.

Pwy fydd yn y Gwrandawiad?

Mae Gwrandawiadau'n agored i'r Cyhoedd, ond fel arfer y Partïon, y Tribiwnlys a'r Clerc yn unig fydd yn bresennol. Gall y Tribiwnlys roi cyfarwyddyd i unrhyw un sydd wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig, affidafid neu adroddiad arbenigol fod yn bresennol yn bersonol.

Beth fydd yn digwydd yn y Gwrandawiad?

Bydd y Tribiwnlys yn egluro'r weithdrefn ar y diwrnod, ond bydd y naill barti a'r llall yn cael cyfle digonol i gyflwyno'u hachos i'r Tribiwnlys a gofyn unrhyw gwestiynau. Bydd Aelodau'r Tribiwnlys hefyd yn gofyn cwestiynau er mwyn iddynt allu dod i Benderfyniad.

A oes yn rhaid i mi ddod i'r Gwrandawiad?

Dylech fynychu'r Gwrandawiad er eich budd eich hun er mwyn i'r Tribiwnlys glywed yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud am y cais. Efallai y bydd gan y Tribiwnlys gwestiynau i'w gofyn i chi. Efallai y byddwch chi hefyd am ofyn cwestiynau.

A oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol arna i?

Nid oes angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnoch chi.

Lle nad yw partïon yn cael eu cynrychioli, bydd y Cadeirydd yn egluro'r materion yn yr achos a gweithdrefnau'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, ni all y Tribiwnlys gynghori partïon ynglŷn â rhinweddau eu hachos, na sut i fwrw iddi.

A gaf i ddod â rhywun gyda mi i'r Gwrandawiad?

Mae gwrandawiadau Tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd ac felly gall unrhyw un fynychu. Ni chaniateir i dystion roi tystiolaeth mewn achos, oni bai bod y Tribiwnlys wedi'i hysbysu'n ffurfiol a bod datganiad tyst wedi'i gyflwyno.

A gaf i ddod â rhywun i siarad ar fy rhan?

Mae angen i chi ysgrifennu i'r Tribiwnlys yn ei hysbysu o'ch bwriad a darparu enw a chyfeiriad y person a fydd yn mynychu i siarad ar eich rhan. Bydd y Tribiwnlys yn hysbysu'r partïon eraill o'ch bwriad.

Beth os bydda i angen mwy o amser cyn y Gwrandawriad i gyflwyno tystiolaeth?

O dan amgylchiadau penodol, efallai y bydd y Tribiwnlys yn cytuno i ohirio. Fodd bynnag, bydd angen argyhoeddi'r Tribiwnlys y gellir cyfiawnhau'r oedi. Bydd angen i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn nodi'ch cais i ohirio a'r rhesymau am hynny.

Pam mae angen i mi gwblhau ffurflen presenoldeb?

Mae'n rhaid i'r holl bartïon hysbysu'r Tribiwnlys a ydynt yn bwriadu bod yn bresennol neu gael eu cynrychioli yn y Gwrandawriad ai peidio. Mae'n rhaid i bartïon hefyd ddweud a ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw dystion ai peidio.

Os ydych chi'n gwneud unrhyw newidiadau i'r bobl a restrir ar eich ffurflen bresenoldeb, rhowch wybod i'r Tribiwnlys ar unwaith.

A alla i hawlio treulïau?

Nid yw'r Tribiwnlys yn gallu talu treulïau.

A alla i/fy nghynrychiolydd/tystion roi tystiolaeth yn Gymraeg?

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a gellir rhoi tystiolaeth yn y naill iaith neu'r llall.

Os ydych chi/eich cynrychiolydd/tystion am roi tystiolaeth yn Gymraeg, rhowch wybod i'r Tribiwnlys cyn y Gwrandawriad er mwyn gwneud trefniadau cyfieithu.

A fydd y Gwrandawriad yn cael ei gynnal yn breifat?

Cynhelir pob Gwrandawriad yn gyhoeddus oni bai bod rhesymau eithriadol a bod gofyn cynnal y Gwrandawriad yn breifat. Os ydych chi am i'r Gwrandawriad gael ei gynnal yn breifat, mae'n rhaid i chi ysgrifennu i'r Tribiwnlys gyda'r rhesymau llawn am eich cais.

Sut mae tystiolaeth yn cael ei rhoi mewn gwrandawriad?

Fel arfer, rhoddir tystiolaeth ar lw neu mewn cadarnhad. Gall y partïon; roi tystiolaeth, galw ar dystion, holi tystion ac annerch y Tribiwnlys.

Beth yw ymweliad safle?

Ymweliad safle yw archwiliad o'r tir sy'n berthnasol i'r cais. Gall y Tribiwnlys archwilio adeiladau, tir ac unrhyw dda byw, cyfarpar a chynnyrch.

A gaf i ddweud unrhyw beth wrth banel y Tribiwnlys yn ystod yr ymweliad safle?

Gall y naill barti a'r llall dynnu sylw at unrhyw elfen ffisegol o'r eiddo y maent am i'r Tribiwnlys ei gweld. Fodd bynnag, ni chaiff y partïon gyflwyno unrhyw sylwadau am yr achos yn ystod yr archwiliad. Gellir cyflwyno achos yn llafar neu'n ysgrifenedig yn ystod y gwrandawriad yn unig.

Ym mha fath o achosion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gynnal archwiliad o'r safle?

Bydd angen i'r Tribiwnlys gynnal archwiliad ym mhob achos bron iawn.

Faint o rybudd y bydd y Tribiwnlys yn ei roi cyn cynnal archwiliad?

Bydd y Tribiwnlys yn rhoi rhybudd o 24 awr o leiaf (neu 7 diwrnod mewn achosion draenio) cyn unrhyw ymweliad safle.

Pryd y cynhelir yr ymweliad safle?

Bydd y Tribiwnlys yn cynghori partïon yn y Gwrandawriad pryd y cynhelir yr ymweliad safle. Fel arfer, cynhelir ymweliadau safle cyn rhoi tystiolaeth.

Pa fioggiogelwch fydd yn cael ei ddilyn yn yr ymweliad safle?

Mae'r Tribiwnlys yn dilyn biddiogelwch yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru.

Penderfyniad y Tribiwnlys

Sut mae'r Tribiwnlys yn gwneud ei benderfyniad?

Bydd y Tribiwnlys yn gwneud ei benderfyniad drwy ystyried yr holl dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys y dogfennau y mae'r holl bartion yn eu hanfon cyn y Gwrandawriad a'r hyn a ddywedir yn y Gwrandawriad.

Faint mae'n ei gymryd i'r Tribiwnlys gyhoeddi ei benderfyniad fel arfer?

Fel arfer, bydd y Tribiwnlys yn cyhoeddi ei benderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith i'r Gwrandawriad.

A gaf fi ofyn am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys?

Os ydych chi'n credu bod problem dechnegol i'r penderfyniad a sut iddo gael ei wneud, gallwch ofyn i'r Tribiwnlys adolygu'r penderfyniad. Ni fydd y Tribiwnlys yn adolygu'r penderfyniad ar y sail nad ydych chi'n hapus ag ef yn unig.

Beth os oes gwallau gweinyddol yn fy mhenderfyniad?

Mae gan y Tribiwnlys y pŵer i gyhoeddi tystysgrifau cywiro i unioni unrhyw wallau neu hepgoriadau clerigol neu ddamweiniol mewn penderfyniad. Bydd angen i chi wneud cais ysgrifenedig i'r Tribiwnlys yn nodi'ch cais.

Beth os ydw i'n anghytuno â phenderfyniad y Tribiwnlys?

Gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar bwynt o gyfraith. Yn y lle gyntaf, bydd angen cael caniatâd i apelio gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Bydd llythyr Penderfyniad y Tribiwnlys yn eich hysbysu am unrhyw amserlenni.

A gaf i weld penderfyniadau blaenorol?

Cewch. Bydd penderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan y Tribiwnlys ar gael yn swyddfa'r Tribiwnlys neu ar y wefan.

Faint o amser mae'r Ymatebydd yn ei gael i gyflawni Gorchymyn Tribiwnlys?

Bydd y Gorchymyn Tribiwnlys yn nodi erbyn pryd y mae angen cyflawni'r Gorchymyn.

Gweler isod, wybodaeth ychwanegol ynglŷn â cheisiadau o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Hwsmonaeth Wael

Mae'r cais yn cael ei wneud gan y landlord yn erbyn y tenant. Gall y Tribiwnlys gyhoeddi tystysgrif nad yw Tenant y daliad yn cyflawni ei gyfrifoldebau i ffermio yn unol â rheolau hwsmonaeth dda. Mae Atodiad 3 o Ran 1 Achos C yn nodi y gall y landlord gyflwyno Rhybudd i Ymadael na ellir ei ymladd ar y tenant o fewn 6 mis i dderbyn y dystysgrif.

Diffinnir Hwsmonaeth Dda yn Adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 fel bod yn ystyriol o gymeriad a sefyllfa'r uned, safon y rheoli gan y perchennog ac amgylchiadau perthnasol eraill bod y meddiannydd yn cynnal cynhyrchiant effeithlon o safon RESYMOL, mewn perthynas â'r math o gynnyrch a'i ansawdd a'i faint, tra'n cadw'r uned mewn cyflwr a fydd yn peri bod modd cynnal safon o'r fath yn y dyfodol.

Ni chaiff y rhybudd i derfynu tenantiaeth fod yn llai na dau fis.

Llosgi

Gall tenant ofyn i'r Tribiwnlys am i'r cyfamodau/amodau/cytundebau yn y brydles:

- gael eu hosgoi'n llwyr;
- cael eu llacio'n barhaol;
- cael eu llacio am gyfnod penodol.

Mae'n rhaid i'r tenant amlinellu sut mae'r cyfamodau/amodau/cytundebau yn rhwystro neu'n atal defnydd iawn o'r tir at ddibenion amaethyddol.

Tynnir eich sylw at fodolaeth y Cod Llosgi Grug a Glaswellt a'r Rheoliadau Llosgi Grug a Glaswellt etc. (neu unrhyw ddiwygiadau neu amnewidiadau yn sgil hynny). Gall partïon gael rhagor o wybodaeth am y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru a ffynonellau eraill y llywodraeth a'r gyfraith.

Offer Sefydlog

Mae gan denant daliad amaethyddol hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys am Orchymyn sy'n rhoi cyfarwyddyd i landlord gyflawni gwaith, o fewn cyfnod penodedig, ar gyfer darparu neu newid/atgyweirio offer sefydlog, fel sy'n angenrheidiol fel y gall y tenant gydymffurfio â gofynion statudol.

Gellir apelio at awdurdodaeth y Tribiwnlys mewn un o ddwy sefyllfa:

- Pe bai'r tenant, wrth gynnal y gweithgarwch amaethyddol a nodir yn ei gais, yn torri'r gofynion a roddir drwy statud pe na bai'r offer sefydlog yn cael eu darparu;
- Os oes offer sefydlog eisoes wedi'i ddarparu yn y daliad, a'i bod yn rhesymol y dylai'r tenant ei ddefnyddio at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch amaethyddol dan sylw, efallai y bydd yn ofynnol i atgyweirio neu newid yr offer os yw am osgoi torri gofynion statudol.

Cyn rhoi cyfarwyddyd, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys fodloni ei hun bod parhau i gynnal y gweithgarwch amaethyddol a gynigir gan y tenant yn rhesymol; gan ystyried dyletswydd y tenant i ffermio'r daliad yn unol â rheolau hwsmonaeth dda.

Ni all y Tribiwnlys roi cyfarwyddyd i'r landlord ddarparu offer sefydlog ar gyfer gweithgarwch amaethyddol arfaethedig os nad yw'n fodlon nad oedd (neu na fydd) dechrau'r gweithgarwch yn arwain at 'newid sylweddol i'r math o ffermio a wneir ar y daliad'. Os yw'r gweithgarwch ffermio a nodir yng nghais y tenant wedi'i gynnal yn barhaus am gyfnod o dair blynedd o leiaf yn union cyn dyddiad y cais, gall y Tribiwnlys roi cyfarwyddyd – hyd yn oed os yw'r newid mewn defnydd a gynrychiolir yn un sylweddol. Yn yr achos hwn, rhagdybir bod y landlord yn cytuno i'r newid defnydd.

Ni all y Tribiwnlys roi cyfarwyddyd i'r landlord wneud gwaith os nad yw'n fodlon ei bod yn rhesymol gwneud hynny 'gan ystyried cyfrifoldebau'r landlord i reoli'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y daliad yn unol â rheolau rheoli stad da'.

Ni ellir apelio at awdurdodaeth y Tribiwnlys i gymell y landlord i wneud gwaith os yw eisoes o dan ddyletswydd i wneud y gwaith er mwyn cydymffurfio â gofyniad a osodwyd drwy statud, neu os gwneir darpariaeth yn y cytundeb tenantiaeth.

Mae'n rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig i'r landlord wneud y gwaith dan sylw gan y tenant. Gellir ond gwneud cais i'r Tribiwnlys os yw wedi methu gwneud y gwaith o fewn cyfnod rhesymol, neu wedi gwrthod ei wneud. Nid yw'r Ddeddf yn rhoi terfynau amser llym ar gyfer cyflawni cais nac ar gyfer ymateb y landlord.

Os yw'r landlord yn methu cydymffurfio â Chyfarwyddyd y Tribiwnlys, mae gan y tenant yr un rhwymedïau â phe bai'r contract tenantiaeth ei hun wedi cynnwys ymrwymiad i wneud y gwaith o fewn y cyfnod a nodwyd gan y Tribiwnlys. Felly, gall y tenant hawlio iawndal a/neu waharddeb yn y ffordd arferol. Nid oes gan y Tribiwnlys bwerau gorfodi.

O dan adran 11(2) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, ni all y Tribiwnlys roi cyfarwyddyd i landlord wneud gwaith mewn cysylltiad â gweithgarwch amaethyddol a nodir yng nghais y tenant lle nad yw'r gweithgarwch wedi'i wneud yn y daliad yn barhaus am gyfnod o dair blynedd

o leiaf yn union cyn gwneud y cais, oni bai eu bod yn fodlon nad oedd dechrau'r gweithgarwch, neu lle nad oedd wedi dechrau eto, yn arwain at neu'n ffurfio rhan o newid sylweddol i'r math o ffermio a wneir ar y daliad.

Gwelliannau Hirdymor

Gellir gwneud cais i'r Tribiwnlys gymeradwyo'r gwaith o wneud gwelliannau hirdymor penodol.

Os yw'r landlord yn gwrthod rhoi cydsyniad neu'n ceisio gosod amodau y mae'r tenant yn eu hystyried sy'n annerbyniol, gall y tenant wneud cais i'r Tribiwnlys i gymeradwyo bwrw iddi â'r gwelliant. Gall y Tribiwnlys roi cymeradwyaeth diamod neu amodol neu gall atal ei gymeradwyaeth.

Yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i'r landlord ofyn am gydsyniad y landlord i'w welliannau, cyn gwneud cais i'r Tribiwnlys.

Os yw'r Tribiwnlys yn rhoi cymeradwyaeth, gall y landlord, o fewn y cyfnod a ragnodir, roi rhybudd ysgrifenedig i'r Tribiwnlys a'r tenant ei fod yn bwriadu gwneud y gwelliant ei hun.

Gardd Fasnachol

Gall tenant wneud cais i'w landlord gytuno'n ysgrifenedig bod ei daliad yn cael ei drin fel gardd fasnachol. Os yw'r landlord yn gwrthod, neu'n methu cytuno'n ysgrifenedig bod y daliad yn cael ei drin fel gardd fasnachol o fewn amser rhesymol, yna gall y tenant wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol.

Gellir gwneud cais o dan Adran 80 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1989, i roi cyfarwyddyd bod daliad/rhan o'r daliad yn cael ei drin fel gardd fasnachol.

Os yw'r Tribiwnlys yn fodlon bod y daliad (neu ran ohono) yn addas i fod yn ardd fasnachol, gallant gyfarwyddo bod yr hawliau lefel uwch i iawndal ac ati yn berthnasol i'r holl welliannau arfaethedig neu rai ohonynt. Gellir rhoi'r cyfarwyddyd yn amodol ar amodau y gwêl y Tribiwnlys yn dda i'w gosod er mwyn diogelu'r landlord.

Mae Adran 80(7) yn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys bennu y bydd y cyfarwyddyd ond yn cael ei roi ar waith os yw'r tenant yn cytuno i rannu'r daliad yn ddwy ran, gydag un rhan yn unig yn cael ei thrin fel gardd fasnachol.

Nid yw tenantiaeth newydd a dderbynnir gan y tenant yn unol â chyfarwyddyd y Tribiwnlys yn cael ei thrin fel tenantiaeth newydd at ddibenion adolygu rhent.

Rhybudd i Ymadael

Gall y Tribiwnlys roi cydsyniad i weithredu Rhybudd i Ymadael. Bydd y cais yn cael ei wneud gan y landlord yn erbyn y tenant.

Mae gan landlord hawl i wneud cais i'r Tribiwnlys am ei Gydsyniad i weithredu Rhybudd i Ymadael o dan Adran 26(1) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, fel a ganlyn:

- (a) Gall landlord sydd am sicrhau meddiant gwag o ddaliad gyflwyno Rhybudd i Ymadael i'r Tenant.
- (b) O dan Adran 26(1), gall y tenant wedyn gyflwyno gwrthrybudd i'r landlord o fewn 1 mis fan bellaf i gyflwyno'r Rhybudd i Ymadael.
- (c) Yna, gellir ond gweithredu'r Rhybudd i Ymadael os yw'r landlord yn gwneud cais i'r Tribiwnlys, a bod y Tribiwnlys yn rhoi cydsyniad i'w weithredu.

Terfynau Amser Allweddol Penodol:

Adran 26 (1): Mae'n rhaid i'r tenant gyflwyno gwrthrybudd i'r landlord o fewn 1 mis fan bellaf i gyflwyno'r Rhybudd i Ymadael.

Rheol 39: Mae'n rhaid i'r landlord gyflwyno cais am Gydsyniad i'r Rhybudd i Ymadael o fewn mis fan bellaf i gyflwyno'r gwrthrybudd.

Nodir y meini prawf sy'n llywio'r Tribiwnlys wrth iddo ystyried Cais am Gydsyniad i Rybudd i Ymadael yn adran 27(1). Bydd y Tribiwnlys yn rhoi ei gydsyniad i'r Rhybudd i Ymadael os:

- (1) nad yw'n ymddangos i'r Tribiwnlys na fyddai landlord teg a rhesymol yn mynnu meddiant
- (2) os yw'n fodlon ynglŷn ag un neu fwy o'r meini prawf isod:
 - (a) bod bwriad y Landlord i gyflwyno'r rhybudd i ymadael er budd hwsmonaeth dda, wedi'i drin fel uned ar wahân.
 - (b) bod bwriad y Landlord i gyflwyno'r rhybudd i ymadael er budd rheolaeth stad gadarn, wedi'i drin fel rhan o'r stad gyfan.
 - (c) bod bwriad y Landlord yn ddymunol er budd ymchwil amaethyddol, addysg, arbrofi neu arddangos, deddfiadau sy'n ymwneud â mân-ddaliadau.
 - (d) deddfiadau sy'n ymwneud â rhandiroedd.
 - (e) byddai mwy o galedi'n cael ei achosi o atal cydsyniad nag y byddai o roi cydsyniad.
 - (f) defnydd anamaethyddol ac nid Achos B (Atodiad 3 Rhan 1)

Os yw'r tenant yn filwr o fewn ystyr Paragraff 1 o Atodlen 5 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, a bod y Rhybudd i Ymadael yn cael ei roi ar gyfer mwy nag un o'r rhesymau a nodir yn Achos

B, D neu E, mae'n rhaid nodi'r rhesymau am roi'r Rhybudd ac, os oes unrhyw gwestiynau'n codi yn eu sgil wedi'u pennu drwy gymrodeddu, dylid nodi'r penderfyniad hefyd.

Rhybudd i Ymadael

Mae Erthygl 13(2) o Orchymyn Daliadau Amaethyddol (Cyflafareddu ar Rybuddion) 1987 yn ei gwneud yn ofynnol i'r tenant(iaid) ar yr un amser roi rhybudd ysgrifenedig o'r cais i'r landlord(iaid), oni bai bod y cais yn cael ei wneud mewn gwrandawriad gerbron y tribiwnlys.

Olyniaeth yn sgil Marwolaeth

Gellir gwneud ceisiadau i'r Tribiwnlys am gyfarwyddyd i olynu tenantiaeth person sydd wedi marw.

Mae Adran 34 o'r Ddeddf yn cyfyngu'r ddarpariaeth hon i denantiaethau a roddwyd **cyn 12 Gorffennaf 1984**, ac achosion o ail olynydd a roddwyd o dan Adran 39 neu 53, e.e. ar ôl i'r tenant presennol farw neu ymddeol.

Deddfwriaeth	Cam Gweithredu	Terfyn Amser
Deddf, Adran 39(1)	Cais i'r Tribiwnlys gan berthynas agos	3 mis o drannoeth y farwolaeth
Deddf, Adran 41(2)	Cais gan berthynas agos i gael ei drin fel person cymwys at ddibenion Adran 36-48	3 mis o drannoeth y farwolaeth
Rheol 4	Ymateb i gais gan ymgeisydd arall (Ffurflen TA13)	1 mis o ddyddiad cyflwyno'r cais
Rheol 4	Ymateb i gais gan y Landlord (Ffurflen TA11)	1 mis o ddyddiad cyflwyno'r cais
Deddf, Atodlen 3 Rhan 1	Cyflwyno Rhybudd i Ymadael Achos G	3 mis o ddyddiad derbyn rhybudd o farwolaeth y tenant
Rheol 41 (1)	Cais am Gydsyniad i Rybudd i Ymadael Achos G, lle nad oes ond un ymgeisydd i olynu	1 mis o ddiwedd y cyfnod 3 mis ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer olynu neu os yn ddiweddarach , 1 mis o gyflwyno'r cais
Rheol 41 (2)	Cais am Gydsyniad i Rybudd i Ymadael Achos G, lle mae mwy nag un ymgeisydd i olynu	1 mis o gyflwyno rhybudd bod nifer y ceisiadau i olynu wedi'i ostwng i un neu unrhyw ddyddiad cynharach a gyfarwyddir gan y Cadeirydd.

Allwedd: Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 – “Deddf”
Gorchymyn (Rheolau) Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol 2007 – “Rheol”

Tir

Ni chaiff yr ymgeisydd fod yn feddiannydd uned fasnachol ar wahân arall o dir amaethyddol.

Gall yr ymgeisydd, ymatebydd neu'r Tribiwnlys wneud cais am Asesiad Incwm Blynnyddol Net er mwyn pennu incwm blynnyddol net uned o dir amaethyddol. Bydd y datganiad o incwm blynnyddol net yn cael ei ystyried gan y Tribiwnlys wrth iddo ystyried a yw'r darpar olynydd eisoes ym meddiant uned fasnachol o dir amaethyddol ai peidio. Er y bydd datganiad o'r fath yn cynorthwyo'r Tribiwnlys yn aml, nid yw'n rhwymo'r Tribiwnlys.

Dylid gwneud ceisiadau am Ddatganiad Incwm Blynnyddol Net i'r Tribiwnlys, a fydd yna'n gofyn i swyddog arbenigol o Lywodraeth Cymru gynnal archwiliad o'r tir a pharatoi datganiad. Bydd y swyddog yn cysylltu â chi i drefnu dyddiad ac amser addas i arolygu'r holl dir perthnasol. Bydd pob parti'n cael cyfle i fynychu'r archwiliad. Bydd y Tribiwnlys yn anfon copi o'r datganiad atoch chi a'r holl bartïon eraill.

Olyniaeth yn sgil Ymddeoliad

Gall tenant (neu denantiaid) sydd am ymddeol enwebu olynnydd mewn hysbysiad a gyflwynir i'r landlord. Cyfrifoldeb yr olynnydd enwebedig wedi hynny yw gwneud cais i'r Tribiwnlys am gyfarwyddyd. Os nad yw'r olynnydd yn cael cyfarwyddyd gan y Tribiwnlys, ni all wneud cais arall am olyniaeth pan fydd y tenant yn marw.

Yn ôl Adran 49(1) gall tenant gyflwyno hysbysiad i'r landlord yn nodi ei fwriad i ymddeol o'r denantiaeth ac enwebu person i'w olynu i'r denantiaeth honno. Mae'n rhaid i'r tenant roi dyddiad ymddeol sy'n 12 mis o ddiwedd tenantiaeth y flwyddyn gyfredol, ond ni ddylai fod yn fwy na 2 flynedd o ddyddiad yr hysbysiad.

Mae Adran 34 o'r Ddeddf yn cyfyngu'r ddarpariaeth hon i denantiaethau a roddwyd **cyn 12 Gorffennaf 1984**, ac achosion o ail olynnydd a roddwyd o dan Adran 39 neu 53, e.e. ar ôl i'r tenant presennol farw neu ymddeol.

Gwellir gwneud ceisiadau i'r Tribiwnlys am gyfarwyddyd i olynu tenantiaeth person ar ôl iddo ymddeol.